Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Crynodeb o'r newidiadau allweddol i'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd 2026/27

- *Trwy'r cyfan:* Mae cyfeiriadau at Athrofeydd wedi cael eu newid i Athrofeydd / Cyfadrannau trwy'r amser, wrth i'r Brifysgol drosglwyddo o Athrofeydd i Gyfadrannau yn ystod y flwyddyn.

Pennod 1 Cyd-destun Sefydliadol

- *Adran 1.4:* Mae Gwerthoedd y Brifysgol wedi'u diweddaru i'r rhai yn y Cynllun Strategol newydd.
- *Adran 1.5:* Mae Blaenoriaethau Strategol y Brifysgol wedi'u diweddaru i'r rhai yn y Cynllun Strategol newydd.
- *Adran 1.9:* Wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu Amodau Cofrestru Medr.

Pennod 2 Strwythur y Pwyllgor Academaidd

- *Trwy'r cyfan:* Mae'r holl Gylch Gorchwyl wedi'u diwygio ynghyd â nodi cyfrifoldebau allweddol, blaenoriaethau'r Cynllun Strategol allweddol, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Strategaethau ar gyfer pob pwyllgor/bwrdd.
- *Adran 2:* Cyflwyno Haenau i nodi lefel pwyllgor.
- *Adran 2.1.2:* Cyflwyno Grŵp Cynllunio Recriwtio a Derbyn newydd.
- *Adran 2.1.3:* Newid teitl y Grŵp Sefydlog Strategol Partneriaethau Academaidd i'r Grŵp Cynllunio Partneriaethau Academaidd.
- *Adran 2.1.4:* Cyflwyno Uwch Grŵp Sefydlog Diogelu, Atal ac Amddiffyn newydd.
- *Adran 2.3.1* Newid teitl y Pwyllgor Safonau Academaidd i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd.
- *Adran 2.4.1:* Cyflwyno Bwrdd Ansawdd Partneriaethau Academaidd newydd, sydd wedi disodli'r Bwrdd Partneriaethau Academaidd, y Bwrdd Prentisiaethau a'r Bwrdd Symudedd Rhyngwladol.
- *Adran 2.4.2:* Cyflwyno Bwrdd Adolygu Cofrestriadau a Chymhwystra Myfyrwyr newydd.
- *Adran 2.4.4:* Newid teitl y Bwrdd Dysgu ac Addysgu i'r Bwrdd Cyfoethogi Dysgu, Addysgu ac Asesu.

Pennod 3 Gwella Ansawdd

- *Adran 3.5:* Diweddaru teitl y Strategaeth Cyflogadwyedd i'r Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau.

Pennod 4 Dylunio, Cymeradwyo, Dilysu, Monitro ac Adolygu Rhaglenni

- Mae'r Bennod hon yn cael ei hadolygu ar gyfer 2026/27.

Pennod 5 Cynrychiolaeth, Ymgysylltu a Chefnogaeth Myfyrwyr

- Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i Bennod 5.

Pennod 6 Rheoliadau Dyfarniadau a Addysgir

- *Adran 6.2.7:* Ychwanegu LL.M – Meistr yn y Gyfraith at y rhestr Graddau Meistr ac wedi'u cynnwys mewn mannau eraill, lle bo'n berthnasol e.e. 6.3.3 a 6.6.2.
- *Adran 6.5.5 (10):* Eglurhad ar y geiriad ar egwyddor cyrhaeddiad adeg ymadael (*exit velocity*).
- *Adran 6.6.4 (3):* Eglurhad o reolau Rhan I ar gyfer dyfarnu credyd.
- *Adran 6.6.4.2 (3) a (4):* Egluro rheoliadau Methiant ac Adfer.
- *Adran 6.6.7 (10) a (11):* Eglurhad Rheoliadau Dosbarthu Graddau Ôl-raddedig (a Addysgwyd).
- *Adran 6.8:* Ehangu 'Y drefn ar gyfer dyfarnu Dyfarniad Aegrotat' i egluro'r sefyllfa mewn perthynas â'r hawl i gofrestru gyda chorff proffesiynol ac agweddau eraill.

Pennod 7 Asesiad: Rhaglenni a Addysgir

- Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i Bennod 7.

Pennod 8 Rheoliadau Graddau Ymchwil

- Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i Bennod 8.

Pennod 9 Fframwaith Gweithdrefnol ar gyfer Darpariaeth Gydweithredol

- Mae'r Bennod hon yn cael ei hadolygu ar gyfer 2026/27.

Pennod 10 Micro-gymwysterau, Cyrsiau Byrion, Fframwaith Ymarfer Proffesiynol, Partneriaid Cyfrannol, Lleoliadau Allanol ac Achrediad

- Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i Bennod 10.

Pennod 11 Gweithio gydag Eraill

- *Adran 11.4.1:* Newid cyfeiriad o'r Pwyllgor Materion Rhyngwladol a Phartneriaethau Cydweithredol i'r Bwrdd Ansawdd Partneriaethau Academaidd.

Pennod 12 Polisïau Myfyrwyr

- *Adran 12.1.1:* Ychwanegu Polisi Addasiadau Rhesymol o dan Bolisïau Cymorth i Fyfyrwyr, a dileu'r cyfeiriad at Fesurau Cydadferol.

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG